DATGANIAD

Mewn cyfarfod o Bwyllgor Gwaith Cymrodoriaeth Eisteddfod Talaith a Chadair Powys a gynhaliwyd ar lein Ddydd Sadwrn, Hydref 24ain 2020, wedi trafodaeth drylwyr ynglŷn â'r sefyllfa yn ymwneud â pandemig Covid 19, penderfynwyd gohirio Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Rhosllannerchrugog a'r Cylch 2020, oedd i fod i gael ei chynnal yn Y Stiwt ar Orffennaf 16eg a'r 17eg 2021 am flwyddyn arall. Felly gobeithiwn ei chynnal yn 2022. Golyga hyn y bydd Eisteddfod Talaith a Chadair Powys Edeyrnion a Penllyn yn cael ei chynnal yn yr Hydref 2023.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Aelodau Pwyllgor y Rhos am eu dyfalbarhad a'u gwaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ac i drigolion y Rhos am eu cefnogaeth i'r ymdrechion i godi arian hyd yn hyn. Hoffem eich sicrhau y bydd Cronfa Eisteddfod Rhosllannerchrugog a'r Cylch yn cael ei chadw'n ddiogel i'w defnyddio ar gyfer eich Eisteddfod chi yn unig. Gwrtheyrn, y Cofiadur